



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hybu gwasanaethau Cymraeg

Hybu gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan sefydliad a hysbysebu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg

Dyddiad: Awst 2017

Ym mis Mawrth 2016, bu i Gyngor Sir Gâr gynnal ymgyrch 'Pa bynnag ffordd...' i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y Cyngor ac i annog y cyhoedd i gysylltu â'r cyngor – boed drwy lythyr, alwad ffon, e-bost, ar-lein neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol – yn Gymraeg.

CEFNDIR

Roedd Cyngor Sir Gâr wedi cynnal ymgyrchoedd yn y gorffennol oedd â'r nod o hybu gwasanaethau penodol neu godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau neu ddatblygiadau arwyddocaol. Cynhaliwyd ymgyrch benodol, er enghraifft, i annog cwsmeriaid i ymweld â'u gwefan ac i ddilyn gwasanaethau ar-lein. Roedd yr ymgyrch 'Pa bynnag ffordd...' yn gam naturiol ymlaen o'r ymgyrchoedd blaenorol.

Mae gan y Cyngor ganolfan gyswllt sydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen y Cyngor ac yn bwynt cyswllt cyntaf wrth dderbyn a delio gydag ymholiadau'r cyhoedd. Mae swyddogion y ganolfan yn cofnodi sampl o alwadau ac ymholiadau yn rheolaidd gan gofnodi cyfrwng iaith, natur yr ymholiad, gwybodaeth ddaearyddol ac ati. Roedd data o'r sampl yn awgrymu nad oedd y nifer oedd yn cysylltu â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir (yn ôl canlyniadau cyfrifiad 2011). Penderfynwyd felly bod angen sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg y Cyngor, a bod angen ehangach i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.

SAFONAU'R GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Gâr yn ddarostyngedig i safon 81 (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015) sydd yn gosod dyletswydd ar sefydliad i hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

CYNLLUNIO A PHARATOI

Mewn cydweithrediad â'i bartneriaid (sydd yn cynnwys y Mentrau Iaith) mae'r Cyngor wedi adnabod ardaloedd penodol i'w blaenoriaethu ar gyfer gweithredu dros y Gymraeg am y blynyddoedd nesaf. Cynhaliwyd ymarferiad mapio oedd yn targedu ardaloedd ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn ogystal â ffactorau eraill megis diffyg trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, yr angen i gymathu mewnfudwyr, diffyg dilyniant ieithyddol ymysg pobl ifanc ac ati.

Cefnogwyd yr ymgyrch gan Banel Ymgynghorol Aelodau'r Cyngor a gadeirir gan yr Aelod Portffolio sydd â chyfrifoldeb am bortffolio'r Gymraeg a chyswllt gyda'r cynghorau tref a chymuned. Cafwyd hefyd gydsyniad a chefnogaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am safonau'r Gymraeg ac am waith marchnata a hyrwyddo'r Cyngor. Yn ogystal, derbyniwyd gymeradwyaeth partneriaid y Cyngor drwy'r Fforwm Sirol Strategol ar y Gymraeg.

YMGYRCH 'Pa bynnag ffordd . . .'

Datblygwyd ymgyrch i annog defnyddwyr gwasanaeth i gysylltu â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio'r teitl bachog neu 'strapline' 'Pa bynnag ffordd . . .'. Dyluniwyd baneri ar sail y teitl i'w cynnwys ym mhapur newyddion y cyngor *Newyddion Sir Gâr* (a gylchredir i bob aelwyd yn y sir) ac ym mhapurau bro yr ardal. Yn ogystal, dyluniwyd poster i'w roi mewn arosfannau bysiau o fewn yr ardaloedd blaenoriaeth.

Pa bynnag ffordd...



...mae 'na groeso i chi **gysylltu** â Chyngor Sir Gâr yn **Gymraeg**



CHYNGOR Sir Gâr Carmarthenshire
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Learning the language?



...you are welcome to **contact us in Welsh**



CHYNGOR Sir Gâr Carmarthenshire
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Roedd yr ymgyrch yn ddwyieithog gyda'r fersiwn Saesneg yn targedu dysgwyr a'u hannog i roi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Roedd yr ymgyrch felly'n targedu siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion y gwahanol gynulleidfaoedd.

Bu'r ymgyrch yn rhedeg o fis Chwefror 2016 hyd at fis Mai 2016. Ymddangosodd yr hysbyseb yn y papurau cymunedol yn gyntaf ac yna gosodwyd y posteri yn yr arosfannau bysiau.

COSTAU'R YMGYRCH

Nid oedd unrhyw gostau ychwanegol o safbwynt staffio na hyfforddiant. Llwyddwyd i gadw costau'r ymgyrch yn isel trwy ddefnyddio adnoddau mewnol yn hytrach nag allanoli'r gwaith i gontractwr. Roedd gosod y faner yn y papurau yn costio £300 a llwyddwyd i gadw'r costau printio'r poster o dan £70.

MESUR TRAWEFFAITH

Bydd y Cyngor yn parhau i samplu'r ymholiadau a ddaw i'r ganolfan alwadau gan ddefnyddio'r data er mwyn dod i gasgliad os bu cynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth sydd yn defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ymateb oddi wrth y partneriaid sirol wedi bod yn bositif ac mae cyfle o'r newydd yn ystod 2017/18 i ganolbwyntio mwy ar godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg y Cyngor yn yr ardaloedd blaenoriaeth o fewn y sir.

CYFLEOEDD I YMESTYN YR YMGYRCH YN Y DYFODOL

Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Cyfathrebu 2017-18 sydd â thargedau penodol ar gyfer cynyddu nifer y defnyddwyr sy'n cysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg, gan adeiladu ar lwyddiannau'r ymgyrch hon. Mae'r Cynllun Cyfathrebu yn cynnwys targedau ar gyfer prosiectau penodol gan gynnwys ymgyrchoedd penodol i:

- annog cynghorwyr lleol i gysylltu â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg;
- annog cynghorwyr lleol i hybu gwasanaethau Cymraeg y Cyngor ac annog aelodau'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn ogystal mae bwriad i gynnal ymgyrch gyda'r papurau bro ym mis Hydref 2017.

Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried ymgyrchoedd hybu ehangach gan gynnwys hyrwyddo gwasanaethau penodol cyfrwng Cymraeg y Cyngor a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

BARN Y COMISIYNYDD

Nododd Comisiynydd y Gymraeg yn ei hadroddiad sicrwydd 2015-16 'Amser gosod y safon', "Er mwyn hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith rhaid i sefydliadau godi

ymwybyddiaeth pobl o'r ffaith fod gwasanaethau Cymraeg ar gael trwy eu cynnig yn rhagweithiol." Mae'n allweddol bwysig bod sefydliadau yn mynd ati yn rhagweithiol i hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'w defnyddwyr. Nid yn unig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon berthnasol, ond hefyd er mwyn codi hyder y siaradwyr Cymraeg bod y gwasanaethau ar gael a'u hannog i wneud defnydd ohonynt. Mae'r Comisiynydd wedi cynnal grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg ar draws Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf ac un neges amlwg oedd bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith os yw'r sefydliad yn ymddwyn yn rhagweithiol. Cred y Comisiynydd bod yr ymgyrch 'Pa bynnag ffordd . . . ' yn enghraifft llwyddiannus o sefydliad yn mynd ati i sicrhau'r cynnig rhagweithiol. Teimla'r Comisiynydd bod ymgyrch o'r fath o fewn cyrraedd nifer o sefydliadau cyhoeddus yn sgil y ffaith ei bod yn ymgyrch syml a chost-effeithiol. Croesawa'r bwriad i ddefnyddio'r data a gesglir er mwyn mesur traweffaith yr ymgyrch a fydd yn llywio ymgyrchoedd pellach yn y dyfodol. Wrth ystyried trosglwyddo'r arfer hwn, dylai sefydliadau roi ystyriaeth i'r data a'r dulliau sy'n angenrheidiol er mwyn mesur a yw ymgyrch yn llwyddiannus ai peidio.

Manylion cyswllt

Enw: Tîm Polisi a Phartneriaeth

Sefydliad: Cyngor Sir Gâr

E-bost: iaithGymraeg@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn: 01276 224914